

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: Hydref 2022

STATWS: GWEITHREDU

CATEGORI: IECHYD Y CYHOEDD

Teitl: Dull o Ymdrin â Feirysau Anadlol – Canllawiau Technegol ar gyfer Cynllunio Gofal Iechyd

I'w adolygu: Hydref 2023

I'w weithredu gan:

Pob Bwrdd Iechyd, Ymddiriedolaethau'r
GIG

Camau i'w cymryd erbyn:

Ar unwaith

Anfonir gan: Frank Atherton, y Prif Swyddog Meddygol

**Enw(au) Cyswllt yng Ngrŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru:**

Y Gyfarwyddiaeth Diogelu Iechyd, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
Llywodraeth Cymru, Covid19.ProfiOlrhainDiogelu@llyw.cymru.

Dogfen(nau) amgaeedig: 1

Annwyl Gyfeillion,

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru '[Dull o Ymdrin â Feirysau Anadlol o ran Iechyd y Cyhoedd, Hydref/Gaeaf 22/23](#)' ar 11 Hydref. Mae'r ddogfen yn nodi'r cyd-destun o ran iechyd y cyhoedd wrth inni symud i hydref/gaeaf 22/23 ac yn nodi ein dull o ymateb i feirysau anadlol yng Nghymru.

Mae'r dull a amlinellir yn canolbwyntio ar y camau y byddwn yn eu cymryd wrth weithredu mewn amgylchedd Covid Sefydlog, sy'n golygu ein bod yn disgwyl tonnau pellach o'r haint ond nad ydym yn disgwyl i'r rhain roi pwysau anghynaliadwy parhaus ar y system Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, yma yng Nghymru ac ar draws y DU, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr heintiau yn y gymuned ac yn nifer y bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty. Felly, rwy'n gofyn am eich cefnogaeth yn y meysydd canlynol:

- Brechu yw ein dull amddiffyn gorau ac mae'n hanfodol ein bod yn darparu mynediad a chefnogaeth i weithwyr iechyd a gofal allu derbyn eu cynnig o frechiadau ar gyfer COVID-19 a'r fflw - felly rwy'n gofyn am ymrwymiad bod pob arweinydd clinigol yn cael sgwrs gyda phob aelod o'u tîm yn ystod y pythefnos nesaf ynglŷn â'u bwriadau brechu.
- Pwysigrwydd addysgu staff am bwysigrwydd parhaus hylendid personol da a chadw draw o'r gwaith os oes ganddyn nhw symptomau; cymryd prawf a dilyn y cyngor.
- Bod gwisgo masg yn cael ei annog i staff ac ymwelwyr yn ein hysbytai gan gynnwys ardaloedd cyhoeddus.

Is-deip BA.5 o'r amrywiolyn omicron yw'r straen amlycaf o hyd ar hyn o bryd, ond mae'r feirws yn parhau i newid ac rydym yn gweld amrywiolion newydd yn dod i'r golwg yn barhaus.

Mae'n bosibl, felly, y bydd angen i ni weithredu'n gyflym i ymateb i newid mewn amgylchiadau. Gallai hyn gynnwys cyflwyno mesurau eraill gan gynnwys yr opsiynau ar gyfer ymchwydd y gaeaf a Covid Brys, a rhoi cyngor cryfach ynglŷn ag ymddygiadau amddiffynnol.

Yn gywir

Frank Atherton
Prif Swyddog Meddygol

Atodiad 1

Y Dull o Ymdrin â Feirysau Anadolol – Canllawiau Technegol ar gyfer Cynllunio Gofal Iechyd

Gwyliadwriaeth

Mae gwyliadwriaeth effeithiol a rheolaidd ar glefydau anadolol yn nodwedd bwysig o'r system diogelu iechyd yng Nghymru. Bydd yr wybodaeth y byddwn yn ei chasglu yn helpu i lywio'r penderfyniadau a'r dewisiadau polisi y gallai fod eu hangen y gaeaf hwn.

Mae gan y Bwrdd Iechyd a gwasanaethau gofal sylfaenol rôl allweddol o ran cefnogi gwyliadwriaeth drwy gynyddu'r samplau ar gyfer pobl sydd â feirysau anadolol drwy gyfrwng set fwy cynrychioliadol o feddygfeydd a fferyllfeydd. Bydd set safonol o brofion pathogenau yn cael eu cynnal hefyd, a data'n cael ei chasglu, ar bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty â symptomau anadolol aciwt, a bydd is-set o safleoedd adrannau brys yn casglu amrediad ehangach o wybodaeth. I gefnogi'r gwaith hwn, anogir byrddau iechyd i gymryd rhan yn y broses o gyflwyno'r Set Ddata Gofal Brys (WECDS) newydd ledled Cymru ac i ymrwmo i ddarparu digon o ddata o ansawdd drwy'r system briodol gan gynnwys llenwi ffurflenni cais am brofion electronig yn llawn ar gyfer pob achos SARI mewn ysbytai yng Nghymru. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer dyfodol hirdymor gwyliadwriaeth ar Heintiau Anadolol Acíwt Difrifol yng Nghymru. Fel arall byddwn yn parhau â'r statws presennol o fethu â gallu monitro nifer y cleifion sy'n cael gofal iechyd brys oherwydd symptomau heintiau anadolol difrifol.

Cyngor ar Atal a Rheoli Heintiau i staff iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r canllawiau [Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau COVID-19](#) cyfredol yng Nghymru yn darparu mesurau sy'n benodol i glefydau, er mwyn atal trosglwyddo SARS-CoV-2 mewn lleoliadau iechyd a gofal yng Nghymru. Dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â [Llawlyfr Cenedlaethol Cymru ar Atal a Rheoli Heintiau](#). Mae hwn yn disgrifio sut y defnyddir Rhagofalon Atal a Rheoli Heintiau Safonol a Rhagofalon ar Sail Trosglwyddo o ran rheoli feirysau eraill y gaeaf.

Mae canllawiau pellach hefyd ar gael ynglŷn â gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol ac asesiadau risg lleol yng nghyd-destun rheoli heintiau feiol anadolol tymhorol gan ganolbwyntio ar y fflw, SARS CoV-2 a feirws syncytaidd anadolol (RSV) yn seiliedig ar fesurau fel y maent wedi'u blaenoriaethu yn hierarchaeth y rheolaethau. Mae hwn i'w weld yma [Atal a Rheoli Heintiau - Iechyd Cyhoeddus Cymru \(gig.cymru\)](#).

Mae rhaglenni brechu ar gyfer COVID-19 a'r fflw tymhorol yn parhau i fod yn rhan hanfodol o'n cynlluniau atal a rheoli heintiau. Mae angen lefel uchel o frechu ymhlith y gweithlu i gynnal iechyd a lles ein gweithlu, ac i atal trosglwyddo'r haint i gleifion a chydweithwyr. Bydd hyn yn helpu hefyd i gynnal ein lefelau staffio drwy leihau salwch y gellir ei osgoi, ac felly osgoi cynyddu'r pwysau ar gydweithwyr sy'n dal i

weithio. Bydd yn hanfodol bod byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd yn annog ac yn cefnogi'r gweithlu i gael eu brechu.

Bydd ein negeseuon cyfathrebu yr hydref a'r gaeaf hwn hefyd yn canolbwyntio ar y camau gweithredu y mae unigolion yn eu cymryd i ddiogelu eraill, gan gynnwys gwisgo masgiau mewn lleoliadau iechyd a gofal. Rydym yn disgwyl i fyrddau iechyd fynd ati'n rhagweithiol i annog a chefnogi gwisgo masgiau yn eu lleoliadau i leihau heintiadau mewn staff a chleifion, yn enwedig pan fo cyfraddau a mynychder achosion yn uchel.

Dylid parhau i ddefnyddio masgiau neu orchuddion wyneb ar gyfer yr holl gleifion ac ymwelwyr mewn mannau sy'n delio ag achosion hysbys neu achosion a amheuir o SARS-CoV-2 a heintiau anadlol eraill yn unol â chanllawiau atal a rheoli heintiau.

Cyfrifoldeb y Bwrdd Iechyd o hyd yw sicrhau bod staff ac ymwelwyr yn cydymffurfio â chanllawiau atal a rheoli heintiau ar gyfer lleoliadau iechyd a gofal ac yn parhau i gael eu cynghori a'u cefnogi i ddefnyddio masgiau / gorchuddion wyneb

Ein dull o ymdrin â phrofi gan gynnwys profion amlddadansoddiad

Mae'r fframwaith profi cleifion yn nodi canllawiau cenedlaethol ar gyfer profi cleifion sy'n cael eu derbyn a'u rhyddau, ac ar gyfer y gaeaf a'r hydref hwn mae'n cynnwys defnyddio profion amlddadansoddiad os dynodir hynny'n glinigol. Mae'r canllawiau, a ddiwygiwyd ym mis Medi, yn wedi'u seilio ar y dystiolaeth orau sydd ar gael o ran gwyddoniaeth, arbenigedd ac iechyd y cyhoedd, ond mae hefyd yn cydnabod pwysigrwydd gwneud penderfyniadau lleol ynghylch ble neu pryd y gall fod angen cynyddu neu leihau profion gan ddibynnu ar gyfraddau nosocomiaidd, cyfraddau trosglwyddo cymunedol, neu ba mor agored i niwed yw cleifion.

Gwnaethpwyd newidiadau i'r drefn ar gyfer profi staff iechyd a gofal ar 8 Medi drwy roi'r gorau i gynnal profion asymptomatig. Rydym yn parhau i ddarparu mynediad am ddim at brofion symptomatig i staff iechyd, a gallwn aildechrau profion asymptomatig os bydd angen gwneud hynny yn ystod y gaeaf am resymau'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd.

Yn ogystal â COVID-19 y gaeaf hwn rydym hefyd yn wynebu ansicrwydd ychwanegol o ran feirysau anadlol eraill sy'n cylchredeg, gan gynnwys y fflw. Wrth lunio ein cynlluniau ar gyfer y gaeaf rydym wedi ystyried sut rydym yn defnyddio'r capasiti profi fel bod modd iddo wneud diagnosis hefyd o ystod ehangach o feirysau anadlol a allai beri risg i'r rhai mwyaf agored i niwed.

Mae profion amlddadansoddiad diagnostig yn cynnig nifer o fanteision o'u cymharu â phroffion llif unffordd neu brofion PCR sy'n benodol ar gyfer Covid. Mae profion amlddadansoddiad yn dadansoddi samplau ar gyfer pathogenau lluosog, sy'n eu galluogi i wahaniaethu rhwng afiechydon anadlol, megis COVID-19, Fflw A, B, ac RSV. Gall hyn ein helpu i ganfod gwahanol heintiau anadlol mewn lleoliadau risg uchel a rhoi mesurau ar waith i liniaru'r risg a'r lledaeniad.

Mae mynediad at brofion amlddadansoddiad ar gael eisoes i breswylwyr cartrefi gofal, carcharorion a chleifion os dynodir hynny'n glinigol. Gan fod therapïau fferyllol a chynlluniau rheoli heintiau yn amrywio'n fawr o salwch i salwch, gall diagnosis cywir cynnar o symptomau wella'r driniaeth a'r canlyniadau i unigolion risg uchel sy'n cael gofal yn y lleoliadau hyn. Gellir trin heintiau ffliw, er enghraifft, gyda chyffuriau gwrthfeiol megis oseltamivir i leihau cyfnod yr haint, a gellir eu defnyddio'n broffylactig i ddiogelu cysylltiadau sy'n agored i niwed. Ond mae'r un feddyginiaeth gryn dipyn yn llai effeithiol yn erbyn pathogenau anadlol eraill.

Yr hydref a'r gaeaf hwn rydym yn ymestyn y cynnig o brofion amlddadansoddiad i staff symptomatig sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda chleifion mewn lleoliadau caeedig lle mae'r risg yn uchel. Mae ein dulliau o ymdrin â phrofion mewn lleoliadau gwahanol wedi'u nodi yn y tablau isod a bydd angen i dimau profi'r byrddau iechyd eu cefnogi. Mae hyn yn seiliedig ar y nod o amddiffyn y rhai sy'n fwy agored i niwed a lleihau'r risg o drosglwyddo'r haint i'r rhai sydd â'r risg uchaf o ganlyniadau niweidiol ac o fewn lleoliadau risg uchel/caeedig.

Dull o ymdrin â lleoliadau caeedig

Lleoliad	Sefyllfa	Math o brawf
Ysbytai'r GIG	Staff symptomatig sy'n ymdrin yn uniongyrchol â chleifion ac sy'n gweithio gyda grwpiau risg uchel https://llyw.cymru/triniaethau-covid-19	Amlddadansoddiad
Ysbytai'r GIG	Staff symptomatig nad ydynt yn gweithio gyda grwpiau risg uchel fel arfer	Os yw'r prawf llif unffordd yn negatiff, cynghorir prawf PCR/ amlddadansoddiad
Y GIG	Darparwyr Iechyd Annibynnol symptomatig sy'n trin cleifion y GIG mewn ysbytai	Os yw'r prawf llif unffordd yn negatiff, cynghorir cynnal prawf PCR/ amlddadansoddiad
Cartrefi Gofal	Preswylwyr â symptomau - os yw preswylwyr yn cael salwch tebyg i'r ffliw dylid profi tri phreswylwr â symptomau i ddechrau i ddeall pa feirws anadlol sy'n cylchredeg yn y cartref gofal. Gellir tybio bod preswylwyr eraill sy'n cael salwch tebyg i'r ffliw wedi hynny yn dioddef o'r un feirws anadlol. Ni ddylid gwneud profion pellach oni bai y dynodir hynny'n glinigol.	Amlddadansoddiad
Cartrefi Gofal	Staff symptomatig	Amlddadansoddiad
Hosbisau	Staff symptomatig	Amlddadansoddiad
Gofal Cymdeithasol	Staff â symptomau sy'n gweithio mewn cyfleusterau byw â chymorth	Os yw'r prawf llif unffordd yn negatiff, cynghorir prawf PCR/ Amlddadansoddiad
Carcharorion	Carcharorion â symptomau - os yw carcharorion ar yr un bloc yn cael salwch tebyg i'r ffliw dylid profi tri carcharor â symptomau i ddechrau i ddeall pa	Amlddadansoddiad

	feirws anadlol sy'n cylchredeg yn y carchar. Gellir tybio bod carcharorion yn yr uned sy'n cael salwch tebyg i'r fflw yn dilyn hynny, yn dioddef o'r un feirws anadlol. Ni ddylid gwneud profion pellach oni bai y dynodir hynny'n glinigol.	
Ysgolion Arbennig (preswyl)	Os yw preswylwyr yn cael salwch tebyg i'r fflw dylid profi tri phreswilydd â symptomau i ddechrau i ddechrau i ddeall pa feirws anadlol sy'n cylchredeg yn yr ysgol. Ni ddylid gwneud profion pellach oni bai y dynodir hynny'n glinigol.	Os yw'r prawf llif unffordd yn negatiff, cynghorir prawf PCR/ Amlddadansoddiad

Dull o ymdrin â phroffion mewn lleoliadau eraill

Y GIG	Darparwyr lechyd Annibynnol symptomatig sy'n trin cleifion y GIG yn y gymuned	Prawf llif unffordd
Y GIG	Staff gofal sylfaenol symptomatig	Prawf llif unffordd
Gofal Cymdeithasol	Staff gofal cartref symptomatig	Prawf llif unffordd
Gofal Cymdeithasol	Gweithwyr gofal cymdeithasol symptomatig	Prawf llif unffordd
Arolygiaethau lechyd a Gofal	Staff symptomatig	Prawf llif unffordd
Ysgolion Arbennig	Staff a myfyrwyr mewn ysgolion nad ydynt yn rhai preswyl	Prawf llif unffordd

Ymyriadau Fferyllol

Mae rhai cleifion yn wynebu mwy o risg os ydynt yn dal feirysau anadlol, a gallai ymyriadau fferyllol fod yn fuddiol iddynt. Mae cyngor pellach isod ar y triniaethau sy'n cael eu hargymell.

Cyffuriau gwrthfeiol ar gyfer trin ac atal y fflw

Mae NICE yn argymhell oseltamivir a zanamivir, o fewn eu hawdurdodiadau marchnata, i drin y fflw mewn oedolion a phlant os yw'r holl amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- mae cynlluniau goruchwylio cenedlaethol yn dangos bod feirws fflw A neu B yn cylchredeg
- mae'r person mewn grŵp sy'n agored i niwed
- mae'r person yn arddangos symptomau afiechyd tebyg i'r fflw a gall ddechrau triniaeth o fewn 48 awr (neu o fewn 36 awr ar gyfer triniaeth zanamivir mewn plant) pan fo'r symptomau'n dechrau, yn unol â dynodwyr trwyddedig.

- diffinnir pobl sy'n agored i niwed fel y rhai hynny sydd ag un neu fwy o'r canlynol:
 - clefyd anadlol cronig (gan gynnwys asthma a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint)
 - clefyd cronig y galon
 - clefyd cronig yr arennau
 - clefyd cronig yr afu
 - cyflyrau niwrolegol cronig
 - diabetes mellitus.
- Mae pobl sy'n 65 oed neu'n hŷn a phobl a allai fod yn imiwnoataliedig hefyd yn cael eu diffinio fel rhai sy'n agored i niwed

Mae NICE hefyd wedi darparu canllawiau sy'n nodi y gellir defnyddio oseltamivir a zanamivir ar gyfer proffylacsis i bobl mewn grwpiau sy'n wynebu risg (gweler uchod) ar ôl dod i gysylltiad â pherson ar yr un aelwyd neu leoliad preswyl sydd ag afiechyd tebyg i'r fflw pan fo'r fflw yn cylchredeg yn y gymuned.

Yn unol â chanllawiau NICE, dylid rhoi proffylacsis os nad yw'r cyswllt wedi'i ddiogelu'n ddigonol drwy frechu, naill ai am nad yw'r brechiad yn cydweddu'n dda â'r straen sy'n cylchredeg, neu fod llai na 14 diwrnod wedi bod rhwng brechu a dyddiad y cysylltiad cyntaf â'r fflw. Yn ogystal, mae'r canllawiau hefyd yn nodi y gellir rhoi proffylacsis gwrthfeiol i unigolyn, waeth beth fo'i statws brechu, os yw wedi dod i gysylltiad â'r haint fel rhan o frigiad lleol o achosion (ee mewn cartref gofal).

Mae'r defnydd o gyffuriau gwrthfeiol ar gyfer naill ai triniaeth fflw neu broffylacsis yn ei erbyn wedi bod yn isel iawn yng Nghymru erioed. Yn 2018, cytunwyd ar Wasanaeth Ychwanegol dan Gyfarwyddyd gyda Phwyllgor Meddygon Teulu Cymru o ran cyffuriau gwrthfeiol ar gyfer proffylacsis yn erbyn brigiad o achosion o fflw tymhorol mewn cartrefi gofal.

Y cais oedd bod ymarferwyr cyffredinol yn gweithredu canllawiau NICE ac yn darparu proffylacsis gwrthfeiol i breswylwyr cartrefi gofal lle mae'n hysbys fod achosion o'r fflw neu y credir bod achosion o'r fflw, yn dilyn yr hysbysiad gan y Prif Swyddog Meddygol i ddechrau rhagnodi. Fodd bynnag, nid yw'r Gwasanaeth Ychwanegol dan Gyfarwyddyd hwn yn cael fawr o effaith ar yr ymateb i achosion o'r fflw mewn cartrefi gofal. Un ffactor sy'n debygol o fod yn cyfrannu yw'r bwlch amser rhwng dod i gysylltiad â'r haint a'r adeg pan fo'r ymarferydd cyffredinol yn nodi'r rhai sy'n gymwys i gael proffylacsis, sy'n golygu mynd y tu hwnt i'r cyfnod o 48 awr i'r cyffur gwrthfeiol fod yn effeithiol. Mae defnyddio profion aml-ddadansoddiad ar gyfer preswylwyr cartrefi gofal symptomatig yn gyfle i weithredu canllawiau NICE yr hydref a'r gaeaf hwn.

Cyffuriau gwrthfeiol i drin COVID-19

Mae pobl sydd â risg uchel o fynd yn ddifrifol wael oherwydd COVID-19 yn gymwys i gael eu trin â therapïau gwrthfeiol neu therapïau gwrthgyrff monoclonaid sy'n niwtraleiddio, yn unol â pholisi mynediad clinigol y DU. Y rhai sydd â'r risg uchaf ac sy'n gymwys am driniaeth yw pobl sydd â'r canlynol:

- anhwylderau cromosomaidd sy'n effeithio ar y system imiwnedd, gan gynnwys syndrom Down
- rhai mathau o ganser, neu bobl sydd wedi cael tynnu canser yn ystod y 12 mis diwethaf
- wedi cael naill ai radiotherapi neu gemotherapi yn ystod y 12 mis diwethaf
- clefyd crymangelloedd
- rhai cyflyrau sy'n effeithio ar y gwaed neu bobl sydd wedi cael trawsblaniad bôn-gelloedd haematolegol
- clefyd cronig yr arennau (CKD) cam 4 neu 5
- clefyd difrifol ar yr afu
- wedi cael trawsblaniad organ
- rhai cyflyrau awtoimiwn neu gyflyrau llidiol, megis arthritis gwynegol neu glefyd llid y coluddyn a allai fod yn cael meddyginiaethau penodol
- HIV neu AIDS
- cyflwr niwrolegol prin (megis sglerosis ymledol, clefyd Huntington, clefyd motor niwron neu myasthenia gravis)
- system imiwnedd y mae cyflwr neu feddyginiaethau penodol wedi amharu arni

Os yw pobl yn y grwpiau hyn yn cael prawf COVID-19 positif ac yn rhoi gwybod am ganlyniad eu prawf llif unffordd, byddant yn cael neges destun neu alwad ffôn o fewn 48 awr fel arfer gan y Gwasanaeth Gwrthfeiol Cenedlaethol ac yn cael cynnig triniaeth. Bydd clinigydd yn y gwasanaeth gwrthfeiol yn cynnig trin y rhai sy'n gymwys â'r meddyginiaethau gwrthfeiol nirmatrelvir a ritonavir, neu molnupiravir neu, os nad yw triniaethau gwrthfeiol yn briodol, trwy eu hatgyfeirio at fwrdd iechyd i gael triniaeth gwrthgyrff monoclonaid sy'n niwtraleiddio (sotrovimab) a roddir drwy'r fraich (trwythiad) mewn un apwyntiad, a hynny mewn ysbyty fel arfer.